**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Lleihau Tlodi

**Ystafell Bwyllgor 1 - Canolfan Ddinesig, Abertawe**

**Dydd Mercher, 26 Medi 2018 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd A Pugh (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C R Doyle | D W Helliwell | B Hopkins |
| Y V Jardine | L V Walton | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Rachel Moxey | Pennaeth Tlodi a'i Atal |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Joanne Portwood | Strategy and Policy Officer |
| Lyndsay Thomas | Swyddog Trwyddedu |
| Jane Whitmore | Rheolwr Partneriaethau a Chomisiynu |

**Hefyd yn bresennol**
Julie Mallinson - Undeb Credyd Celtic

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): P Downing, L R Jones a/ac G J Tanner

---

## 19 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 20 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Lleihau Tlodi a gynhaliwyd ar 22 Awst 2018 fel cofnod cywir**.**

## 21 Cyflwyniadau - Benthyca Llog Uchel.

Darparodd Rachel Moxey, Pennaeth Tlodi a'i Atal, gyflwyniad rhagarweiniol ar Gredyd Cost Uchel. Roedd manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys credyd cost uchel a'r mathau ohonynt; The Young Foundation; rhesymau dros ddefnyddio credyd cost uchel; newidiadau i reoliadau; patrymau/effaith credyd cost uchel; dewisiadau amgen.

Cyflwynodd Julie Mallinson, Undeb Credyd Celtic, gyflwyniad rhagarweiniol i Undeb Credyd Celtic. Roedd manylion yn y cyflwyniad yn cynnwys hanes cryno; ffeithiau a ffigurau; ein rhwydwaith; Gwasanaethau Undeb Credyd Celtic, gan gynnwys cynilion a benthyciadau, cynilion y gyflogres, cynilwyr ifanc, addysg ariannol, cyllidebu, cefnogi cymunedau; mannau casglu cymunedol.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a ddarparwyd yn y ddau gyflwyniad. Roedd y penderfyniadau'n ymwneud â'r canlynol: -

- Arferion diegwyddor benthycwyr carreg y drws;
- Hysbysebu'n ehangach y gwasanaethau a ddarperir gan Undeb Credyd Celtic a thargedu rhai ardaloedd;
- Y dulliau hysbysebu gwahanol sydd ar gael e.e. taflenni, radio, drwy glybiau chwaraeon, drwy bapur newydd Arwain Abertawe;
- Y system waled ddiogel a ddarperir gan Undeb Credyd Celtic a sut mae hyn wedi helpu pobl e.e. mewn achosion o gam-drin domestig;
- Annog banciau i ddarparu cyfrifon banc sylfaenol i unigolion;
- Addysgu unigolion, yn enwedig o ran penderfyniadau ynghylch ceisiadau am fenthyciad i Undeb Credyd Celtic yn cael eu gwneud o fewn 24 awr, a'u perswadio i beidio â chyflwyno cais am gredyd di-oed ar eu ffonau symudol;

Diolchodd y Cadeirydd i'r ddwy am eu cyflwyniadau.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniadau;
2) Cylchredeg y cyflwyniadau i'r pwyllgor;
3) Cylchredeg manylion opsiynau cyflogres Undeb Credyd Celtic i gynghorwyr;
4) Y bydd y Pennaeth Tlodi a'r Atal yn ymchwilio i opsiynau hysbysebu posib ar gyfer yr Undeb Credyd.

## 22 Cyflwyniad - Cyflwyniad i Ddinas Hawliau Dynol.

Darparodd Jane Whitmore, Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu, gyflwyniad rhagarweiniol ar Ddinas Hawliau Dynol. Roedd y manylion a ddarparwyd yn y cyflwyniad yn cynnwys y cefndir; Hawliau dynol; y cynnydd hyd yma; pethau y mae modd eu cyflwyno; sut i gyflawni hyn; yr hyn y gwyddom ei fod yn gweithio; yr hyn nad yw'n gweithio (i'r rhan fwyaf o bobl); y camau nesaf.

Amlygodd bwysigrwydd cadarnhau pa wahaniaeth y byddai dod yn Ddinas Hawliau Dynol yn ei wneud i Abertawe. Ychwanegodd fod gweithdy wedi'i drefnu ym mis Tachwedd 2018 a fyddai'n trafod y sefyllfa bresennol a gwahoddwyd yr holl gynghorwyr iddo.

Trafododd y pwyllgor yr wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad.

**Penderfynwyd** -

1) Nodi cynnwys y cyflwyniad;
2) Y byddai'r Rheolwr Partneriaeth a Chomisiynu'n cylchredeg dogfen 'Arweiniad Ymarferol i Gyfathrebu Hawliau Dynol'.
3) Cylchredeg y cyflwyniad i'r pwyllgor;
4) Cylchredeg y Cynllun Cydraddoldeb Strategol i'r pwyllgor er mwyn paratoi ar gyfer trafodaethau yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

**23 Llythyr y Cadeirydd at Aelodau'r Cabinet - Strategaeth Digartrefedd 2018 - 2022. (Er Gwybodaeth)**

Darparwyd llythyr y Cadeirydd at Aelodau Cabinet ynghylch Strategaeth Digartrefedd 2018-2022 'er gwybodaeth'.

**24 Cynllun Gwaith 2018-2019.**

Cyflwynodd y Cadeirydd gynllun gwaith wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2018-2019.

Trafododd y pwyllgor ychwanegu'r Cynllun Rhoi'n Gall at y cynllun gwaith.

**Penderfynwyd:** -

1) Nodi'r cynllun gwaith wedi'i ddiweddaru;
2) Ychwanegu'r Cynllun Rhoi'n Gall at y cynllun gwaith i'w drafod yn y cyfarfod nesaf a drefnir.

Daeth y cyfarfod I ben am 5.41 pm

**Cadeirydd**